

Cylchlythyr | Newsletter

Tymor yr Hydref (Hanner Tymor 1) 2025 | Autumn Term (Half Term 1) 2025

Neges Gan y Pennaeth | Message From the Headteacher

Am ddechrau gwych i'r flwyddyn academaidd newydd! Gallaf eich sicrhau bod ein plant wedi ymgartrefu'n dda iawn yn eu dosbarthiadau ac yn mwynhau popeth sydd gan y staff i'w gynnig yn fawr. Mae wedi bod yn bleser cerdded o gwmpas yr ysgol ac arsylwi dysgu ac addysgu mor wych.

Mae wedi bod yn wych gweld ein plant yn perfformio'n dda iawn mewn cystadlaethau chwaraeon unwaith eto y tymor hwn. Llongyfarchiadau enfawr i'n timau pêl-droed a rygbi am gynrychioli'r ysgol mor dda. Llongyfarchiadau arbennig iawn i'n tîm pêl-droed am ddod yn ail yng nghystadleuaeth Ranbarthol yr Urdd. Edrychaf ymlaen at eu cefnogi yn Aberystwyth ym mis Mehefin. Rwy'n falch o bob un ohonynt.

Yn olaf, hoffwn ddiolch i ddosbarth Bendigeidfran am wasanaeth dosbarth gwych ar ddydd Gwener. Am ffordd wych o orffen hanner tymor llwyddiannus trwy arddangos eu gwaith rhagorol ar Batagonia.

**Am ddechrau i'r flwyddyn!
Mwynhewch hanner tymor!**

What a fantastic start to the new academic year. I can assure you that our children have settled in very well to their new classes and are thoroughly enjoying everything the staff have to offer. It has been a pleasure walking around the school and observing such fantastic teaching and learning.

It's been great to see our children performing very well in sporting competitions once again this term. A huge congratulations to our football and rugby teams for representing the school so well. A very special congratulations to our football team for coming runners up in the Regional Urdd competition. I look forward to supporting them in Aberystwyth in June. I am very proud of each and every one of them.

Finally, I'd like to thank dosbarth Bendigeidfran for a fantastic class assembly on Friday. What a great way to end a successful half term by showcasing their excellent work on Patagonia.

What a great start to the year!
Please have a very happy half term!

Cymraeg

Y Siarter Iaith




Ein Targedau Siarter Iaith | Our Siarter Iaith Targets

Targed 1 Target 1	Siarad mwy o Gymraeg tu allan i'r ysgol Use more Welsh outside of school
Targed 2 Target 2	Gwrando ar fwy o gerddoriaeth Cymraeg Listen to more Welsh music
Targed 3 Target 3	Gwyllo mwy o raglenni Cymraeg Watch more Welsh programmes
Targed 4 Target 4	Siarad mwy o Gymraeg ar yr iard ac yn y coridorau Speak more Welsh on the yard and in the corridors
Targed 5 Target 5	Defnyddio apiau a thechnoleg trwy gyfrwng y Gymraeg Use more Welsh apps and technology

Y Gornel Ddysgu | The Learning Corner



Hello!	Shwmae!
Good morning	Bore da
Good afternoon	Prynhawn da
Good evening	Noswaith dda
Good night	Nos da
How are you?	Sut wyt ti?
May I have...?	Ga i...?



Ein Pigion Cerddorol | Our Musical Playlist

Y bardd o Montreal - Bryn Fôn a'r band
Fyny ac yn ôl - Gwilym
Heyla - Frizbee
Can yr ysgol - Dafydd Iwan

Cymraeg

Her Seren a Sbarc



Dyma 'Her Seren a Sbarc' mis Hydref. Cofiwch i'n tagio ar y cyfryngau cymdeithasol gan trwy ddefnyddio'r tag @ysgolgybraeggilfachfargod.

Here is the 'Her Seren a Sbarc (Seren & Sbarc Challenge)' for the month of Hydref (October). Please remember to tag us on social media using the tag @ysgolgybraeggilfachfargod.



Gwylwch 'Y Smyrffs'
Watch 'The Smurfs'




Dywedwch "Helo Hydref!"
Say "Helo Hydref!"



Canwch gân "Dwylo dros
y môr"
Sing along to "Dwylo dros
y môr"




Dawnsiwch i gân y Bwgan Brain
Dance along to Bwgan Brain song



Chwaraewch gêm "Wa Wa Wiwer"
Play the "Wa Wa Wiwer" game



Ewch am dro i ffeindio
pethau brown/ Go for a
walk to find brown things



Dosbarth Branwen



Am hanner tymor gyntaf prysur! Mae pawb wedi ymgartrefu yn Nosbarth Branwen yn hyfryd. Rydyn ni wedi bod wrth ein boddau yn dysgu llawer o bethau newydd, yn cynnwys llythrennau Tric a Chlic, rhifau, a phopeth i ymwneud â'r hydref. Rydyn ni wedi dysgu cân newydd am liwiau'r hydref gan ddefnyddio Makaton. Rydyn ni wedi dweud "SHWMAE" wrth ein ffrindiau, dysgu Zumba yn ystod ein gwersi ymarfer corff, a dysgu sut i ffurfio llythrennau trwy ddefnyddio sgarffiau lliwgar i gerddoriaeth, sef 'Sgwilch'. Edrychwn ymlaen at hanner tymor nesaf!

What a busy first half term! Everyone has settled in beautifully in Dosbarth Branwen. We have loved learning lots of new things, including Tric and Chlic letters, numbers, and everything to do with autumn. We have learned a new song about the colors of autumn using Makaton. We have said "SHWMAE" to our friends, learned Zumba during our PE lessons, and learned how to form letters using colorful scarves to music, aka 'Sgwilch'. We look forward to next half term!

Dosbarth Dwynwen



Mae Dosbarth Dwynwen wedi cael tymor prysur iawn! Ein thema yr hanner tymor yma oedd 'Calonnau a Chartrefi'. Rydyn ni wedi bod yn dysgu amdanon ni ein hunain, ein cyrff, a'n hemosiynau. Rydyn ni hefyd wedi darllen y llyfr *Mamgu, Mali a Mbuya*, sy'n sôn am sut mae teuluoedd pawb yn wahanol ac yn arbennig. Roedd Mamgu yn dod o Gymru ac roedd Mbuya yn dod o Zimbabwe, felly fe wnaethon ni gymharu'r ddwy ddiwylliant. Dysgon ni sut i ddweud helo yn y ddwy iaith, cymharu eu celf, eu dawns, a'u bwyd. Fe orffenon ni'r tymor trwy flasus mango, afocado, pomegranate a ffrwyth y ddraig - roeddent yn flasus iawn! Ffordd blasus o orffen hanner tymor gwych!

Dosbarth Dwynwen has had a very busy term! Our theme this half term was 'Calonnau a Chartrefi' ('Hearts and Homes'). We have been learning about ourselves, our bodies, and our emotions. We have also read the book 'Mamgu, Mali a Mbuya', which talks about how everyone's families are different and special. Mamgu was from Wales and Mbuya was from Zimbabwe, so we compared the two cultures. We learned how to say hello in both languages, compare their art, their dance, and their food. We finished the term by tasting mango, avocado, pomegranate and dragon fruit - they were very tasty! A delicious way to end a great half term!

Dosbarth Gelert



Mae wedi bod yn hanner tymor prysur a chyffrous iawn, ac mae'r holl blant wedi ymgartrefu yn y dosbarth yn hyfryd! Yr hanner tymor hwn, rydym wedi bod yn dysgu am y Celtiaid. Fe wnaethon ni archwilio sut oedd bywyd yn y cyfnod Celtaidd, gan gynnwys dyluniad tai crwn Celtaidd. Ar ôl cynllunio ein modelau 2D ein hunain, fe ddaethon ni a nhw yn fyw trwy greu fersiynau 3D yn Minecraft. Fe wnaethon ni hefyd ymchwilio i'r deunyddiau a ddefnyddiodd y Celtiaid ar gyfer adeiladu eu cartrefi a gwneud eu dillad, gan ddarganfod sut roedden nhw'n defnyddio adnoddau naturiol i greu ffabrigau ac eitemau bob dydd. Mae wedi bod yn daith ddiddorol i'r gorffennol!

It's been a very busy and exciting half term, and all the children have settled into class wonderfully! This half term, we've been learning all about the Celts. We explored what life was like in Celtic times, including the design of Celtic roundhouses. After planning our own 2D models, we brought them to life by creating 3D versions in Minecraft. We also investigated the materials the Celts used for building their homes and making their clothes, discovering how they used natural resources to create fabrics and everyday items. It's been a fascinating journey into the past!

Dosbarth Bendigeidfran



Mae pawb wedi ymgartrefu'n wych yn Nosbarth Bendigeidfran y tymor hwn. Rydym wedi mwynhau llawer o weithgareddau cyffrous, gan gynnwys nofio a dechrau ar ein thema newydd, 'Mordaith y Mimosa'. Roedd ymweliad Mewn Cymeriad yn ffordd wych o lansio'r thema, ac rydym wedi mwynhau dysgu am Batagonia a'r Wladfa Gymreig. Uchafbwynt y tymor oedd cyflwyno ein gwaith mewn gwasanaeth i'n rhieni, lle dangoson ni ein dysgu a'n hymdrechion gwych. Fe wnaethon ni hyd yn oed bobî Bara Brith ein hunain i'w rannu gyda'n rhieni yn ystod y bore! Llongyfarchiadau i bawb a siaradodd mor hyderus ac am yr holl waith rhagorol y tymor hwn — bendigedig bawb!

Everyone has settled extremely well into Dosbarth Bendigeidfran this half term. We have enjoyed lots of exciting activities, including swimming and starting our new topic, 'Mordaith y Mimosa.' Our visit from Mewn Cymeriad was a fantastic way to launch our topic, and we have loved learning all about Patagonia and the Welsh Colony. The highlight of the half term was presenting our work in an assembly to our parents, where we showcased our fantastic learning and efforts. We even baked our own 'Bara Brith' to share during the morning! Well done to everyone for speaking so confidently and for all the excellent work this half term — bendigedig bawb!

Canolfan Gwenllian



Dyma ddiwedd ein hanner tymor cyntaf yng Nghanolfan Gwenllian! Rydyn ni wedi bod yn brysur iawn yn datblygu ein sgiliau llafar ac mae ein hyder ni wedi mynd o nerth i nerth. Rydyn ni wedi cael llawer iawn o hwyl wrth weithio trwy nifer fawr o themâu. Dysgon ni sut i ddisgrifio ein hunain a'n teulu, a mynegi barn wrth drafod ein hobiau. Aethon ni i'r parc ac i'r siop leol i brynu cynhwysion i greu pitsas blasus. Cawson ni hwyl yn dynwared bod yn sâl ac ymweld â'r meddyg a chreu pypedau ar Puppet Pals i chwarae rôl mewn gwahanol sgysiau.

This is the end of our first term at Canolfan Gwenllian! We have been very busy developing our oracy skills, and our confidence has gone through the roof! We have had lots of fun working through a variety of topics and themes. We learnt how to describe ourselves and our families, and express our opinions when discussing our hobbies. We went to the park and the local shop to purchase ingredients to make tasty pizzas. We had fun pretending to be ill and visiting the doctor's surgery, and we even created ourselves as characters on Puppet Pals to roleplay different conversations.


Presenoldeb | Attendance

Enillydd yr hanner tymor hwn:
This half term's winner:



Dosbarth
Bendigeidfran

Ein targed ysgol yw:
Our school target is:



93.5%

Rhaid cofnodi absenoldeb erbyn 10:00yb
Absences must be reported by 10:00am

A ddylai fy mhlentyn fynd i'r
ysgol/meithrinfa heddiw? Sganiwch
neu cliciwch ar y cod QR i gael
cymorth a chyngor.

Should my child go to school/nursery
today? Scan or click on the QR code
for support and advice.



Dyddiadur | Diary

Dyddiad Date	Digwyddiad Event
4/11/25	Pêl-droed yr Urdd (BI 3-6) Urdd Football (Yr 3-6)
6/11/25	Pêl-droed - Rownd 2 (BI 5&6) Football - Round 2 (Yr 5&6)
10/11/25	Imiwneiddiadau Ffliw (D-BI 6) Flu Immunisations (R-Yr 6)
14/11/25	Diwrnod Diabetes y Byd World Diabetes Day
18/11/25	Pêl-rwyd - Rownd 1 (BI 5&6) Netball - Round 1 (Yr 5&6)
21/11/25	Diwrnod Portffolio Lluniau (Gwisg Ysgol Lawn) Picture Portfolio Day (Full School Uniform)
25/11/25	Gŵyl Pêl-fasged (BI 5&6) Basketball Festival (Yr 5&6)
6/12/25	Marchnad Nadolig Bargod Bargoed Christmas Market
10/12/25	Cinio Nadolig Ysgol School Christmas Dinner
11/12/25	Caffi Cymraeg (Dreigiau Gilfach) Welsh Cafe (Gilfach Dragons)
17/12/25	Brecwast gyda Santa Breakfast with Santa
18/12/25	Taith Pantomeim yr Adran Iau (Beauty and the Beast) Junior Department Pantomime Trip (Beauty and the Beast)
5/1/26	HMS INSET



*Fe fydd dyddiadau cyngherddau Nadolig yn cael eu cadarnhau mor fuan ag sy'n bosibl.

*Christmas concert dates will be confirmed as soon as possible.

Rydym yn hynod falch o gyhoeddi ein bod wedi codi cyfanswm o £158.75 i gefnogi gwaith amhrisiadwy Cymorth Canser Macmillan.

We are extremely proud to announce that we raised a grand total of £158.75 to support the priceless work of Macmillan Cancer Support.